# THOMAS, JOHN EVAN (1884 - 1941), athro a llenor

**Enw:** John Evan Thomas
**Dyddiad geni:** 1884
**Dyddiad marw:** 1941
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** athro a llenor
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** David Thomas

Ganwyd yn Pen-y-groes, Llanllyfni, Gorffennaf 1884. Enillodd ar chwe thelyneg yn eisteddfod genedlaethol 1921. Golygodd *The Normalite*, 1909-10. Efe oedd awdur adroddiad athrawon sir Gaernarfon i'r Pwyllgor Adrannol ar Addysg Wledig yng Nghymru, 1928. Y mae ganddo ysgrifau, ' Y Gorffennol Di-farw ' (*Winllan*, 1925), ac ysgrifau a chaniadau yn *Cymru*, *Y Deyrnas*, *Y Dinesydd Cymreig*, etc. Yr oedd yn drysorydd ac yn un o sylfaenwyr Cyngor Llafur Gogledd Cymru, 1914-19. Bu'n brifathro ysgol gynradd Penmachno, ac yn athro dosbarthiadau pobl mewn oed. Bu farw 1 Ionawr 1941.

## Awdur

**David Thomas**, (1880 - 1967)

## Ffynonellau

*Llawysgrif Bangor yng Ngholeg y Gogledd, Bangor* 8,703

*Cymru (O.M.E.)*, Mai 1915

*Y Dinesydd Cymreig*, 2 Mai 1928

*Yr Herald Cymraeg a'r Genedl*, 21 Ionawr 1941

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738563

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu